# LEADING NURSING, SHAPING CARE
# ARWAIN NYRSIO LLUNIO GOFAL

*We carry the torch*
*Rydym ni'n cario'r ffagl*

# Leadership in Nursing
# Arweinyddiaeth mewn Nyrsio

## 01
### What is Nursing Leadership?

Nursing Leadership is a fundamental part of improving outcomes for people who receive care. Clinical Leadership empowers nurses to reflect on practice, improve care and adopt innovative approaches. Interpersonal leadership should provide nurses with the ability to communicate with, trust and support each other. Organisational Leadership drives effective succession planning, the empowerment of the nursing workforce and the creation of a positive working environment.

### Beth yw Arweinyddiaeth Nyrsio?

Mae Arweinyddiaeth Nyrsio yn rhan hanfodol o wella'r canlyniadau i bobl sy'n derbyn gofal. Mae Arweinyddiaeth Glinigol yn grymuso nyrsys i roi ystyriaeth fanwl i arfer da, i wella gofal ac i fabwysiadu dulliau arloesol. Dylai arweinyddiaeth ryngbersonol roi'r gallu i nyrsys gyfathrebu â'i gilydd, ymddiried yn ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Mae Arweinyddiaeth Sefydliadol yn ysgogi cynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth, grymuso'r gweithlu nyrsio a chreu amgylchedd gweithio cadarnhaol.

## 02
### Continuous professional development (CPD)

Nurses in Wales are highly educated and skilled. Education guides compassion into the most effective form of care. The Nursing and Midwifery Council, which regulates nursing, requires nurses to demonstrate they have undertaken CPD. Yet nurses are often not supported in this requirement by their employer. Nurses should have access to CPD including better opportunities to obtain leadership skills.

### Datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)

Mae nyrsys yng Nghymru wedi'u haddysgu'n dda ac mae ganddynt lawer o sgiliau. Mae addysg yn meithrin tosturi, sy'n rhan o'r dull mwyaf effeithiol o ofal. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n rheoleiddio nyrsio, yn gofyn bod nyrsys yn dangos eu bod wedi ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Eto i gyd, yn aml nid yw'r nyrsys yn cael cefnogaeth eu cyflogwr o ran y gofyniad hwn. Dylai nyrsys allu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD), gan gynnwys gwell cyfleoedd i feithrin sgiliau arweinyddiaeth.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

www.rcn.org.uk/wales
@RCNWales
RCNWales

## 03
### The patient experience

Nurses and healthcare support workers are with patients 24 hours a day, 7 days a week. The need for strong nurse leadership in primary and community nursing has never been more important. Nurses are essential in managing the patient experience, and it is important that nurses are given the opportunity to develop their managerial and human resource skills. These opportunities can equip nurses with the skills, knowledge and confidence to help them succeed in leadership roles.

### Profiad y claf

Mae nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio gyda'r cleifion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Ni fu'r angen am arweinyddiaeth nyrsio gref mewn nyrsio gofal sylfaenol a chymunedol erioed yn bwysicach. Mae nyrsys yn hanfodol wrth reoli profiad y claf, ac mae'n bwysig eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau rheoli ac adnoddau dynol. Gall y cyfleoedd hyn gynnig y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i helpu nyrsys i lwyddo mewn swyddi rheoli.

## RECOMMENDATIONS

- **An agreed programme of leadership development for nursing in NHS Wales including succession planning for senior roles.**
- **A statement committing the Government to improving and maintaining leadership at all levels of nursing**
- **Ensure that nurses have access to continuing professional development (CPD) which includes opportunities to develop leadership skills**

## ARGYMHELLION

- **Rhaglen y cytunir arni i ddatblygu arweinyddiaeth ar gyfer nyrsio yn GIG Cymru, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth i swyddi uwch.**
- **Datganiad yn ymrwymo'r Llywodraeth i wella a chynnal arweinyddiaeth ar gyfer nyrsio ar bob lefel.**
- **Sicrhau bod cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gael i nyrsys, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth.**

## THE CRUCIAL ROLE OF NURSE DIRECTORS IN WALES

There is a Nurse Director in every Health Board in Wales. They are responsible for the delivery of nursing and midwifery services: on average, each Nurse Director in Wales oversees the work of over 3,800 registered nurses. Nurse Directors also provide nursing and clinical advice at board level, and play a key role in wider service planning and strategic development. Nurse Directors provide the crucial "professional conscience" of the Board. A report by the Health Foundation (2010) found that "it is the nursing director, more than any other board member, who is well placed to help boards integrate quality with other aspects of the business". The King's Fund (2015) noted "there is clear evidence of the link between leadership and a range of important outcomes within health services, including patient satisfaction, patient mortality, organisational financial performance, staff wellbeing, engagement, turnover and absenteeism, and overall quality of care." Leadership improves the quality of patient care.

## SWYDDOGAETH HANFODOL CYFARWYDDWYR NYRSIO YNG NGHYMRU

Ceir Cyfarwyddwr Nyrsio ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth: ar gyfartaledd, mae pob Cyfarwyddwr Nyrsio yng Nghymru yn goruchwylio gwaith dros 3,800 o nyrsys cofrestredig. Mae Cyfarwyddwyr Nyrsio hefyd yn darparu cyngor nyrsio a chyngor clinigol ar lefel y bwrdd, ac maent yn chwarae rhan allweddol o ran cynllunio gwasanaethau a datblygu strategaethol ehangach. Mae Cyfarwyddwyr Nyrsio yn darparu "cydwybod proffesiynol" hanfodol y Bwrdd. Canfu adroddiad gan yr elusen annibynnol The Health Foundation (2010) mai'r cyfarwyddwr nyrsio, yn fwy nag unrhyw aelod arall o'r bwrdd, sydd yn y sefyllfa orau i helpu'r byrddau i integreiddio ansawdd ag agweddau eraill ar y busnes. Nododd yr elusen iechyd The King's Fund (2015) bod tystiolaeth eglur o'r cysylltiad rhwng arweinyddiaeth ac amrywiaeth o ganlyniadau pwysig yn y gwasanaethau iechyd, gan gynnwys bodlonrwydd cleifion, marwolaeth cleifion, perfformiad ariannol sefydliad, lles, ymgysylltiad, trosiant ac absenoldeb staff, ac ansawdd cyffredinol y gofal. Mae arweinyddiaeth yn gwella ansawdd gofal cleifion.

### The Chief Nursing Officer – Nurse Director for Wales

The Chief Nursing Officer for Wales (CNO) is the lead nurse for Wales. The CNO provides expert professional advice on Nursing, Midwifery and Specialist Public Health Nursing to the Welsh Government and to the National Assembly for Wales. The CNO is also responsible for driving improvements in patient safety, improving the quality of the patient experience and overseeing the performance and development of the nursing profession. RCN Wales views the position as indispensable to Wales.

### Prif Swyddog Nyrsio – Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru

Prif Swyddog Nyrsio Cymru (y CNO) yw'r prif nyrs yng Nghymru. Mae'r CNO yn rhoi cyngor proffesiynol arbenigol i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Arbenigol. Mae'r CNO hefyd yn gyfrifol am sicrhau gwelliannau i ddiogelwch cleifion, gwella ansawdd profiad cleifion a goruchwylio perfformiad a datblygiad y proffesiwn nyrsio. Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru o'r farn bod y swydd hon yn anhepgor i Gymru.

